

Eich cyf / Your ref: Gofynner am / Please ask for: Gareth Morgans
Fy nghyf / My ref: Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 246522
Dyddiad / Date: 30-04-20 E-bost / E-mail: EDMorgans@sirgar.gov.uk

Annwyl Riant,

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i chi am eich holl gefnogaeth dros yr wythnosau diwethaf ers i'n hysgolion gau o achos Covid-19. Rwy'n hynod falch o'r holl staff sy'n gweithio yn ein Gwasanaethau Addysg a Phlant, gan eu bod wedi delio â'r argyfwng hwn mewn ffordd broffesiynol gydag agwedd gadarnhaol. Hefyd rwy'n ymfalchïo yn ein plant a'n pobl ifanc anhygoel sydd wedi ymateb yn dda i'r newid mawr hwn ac sy'n dal i ddysgu'n frwdfrydig. Rwy'n gweld enghreifftiau gwych o'u gwaith arloesol ar y cyfryngau cymdeithasol bob dydd, ac rwy'n cael gwybod am y prosiectau rhagorol mae ein staff a'n disgyblion yn rhan ohonynt.

Gallaf eich sicrhau ein bod ni i gyd yn gwneud popeth yn ein gallu i helpu ein staff i gadw mewn cysylltiad â'n dysgwyr. Mae hwn yn gyfnod annifyr iawn i chi a'ch plant, yn enwedig y rheiny sydd i fod i sefyll arholiadau, sy'n gadael ysgol, neu sy'n symud i ysgol newydd yn ddiweddarach eleni. Gallwch fod yn daweil eich meddwl y byddwn yn parhau i wneud popeth posibl i gefnogi ein disgyblion.

Hoffwn hefyd ddiolch i chi am barchu cyngor Llywodraeth Cymru drwy gadw eich plentyn gartref. Dylai cadw plant yn ddiogel gartref gyfyngu ar ledaeniad y feirws, a diogelu'r bobl allai fynd yn ddifrifol wael pe baent yn cael y feirws. Fodd bynnag rwy'n derbyn bod rhai ohonoch yn 'weithwyr allweddol' efallai, a bod angen gofal plant arnoch. Hoffwn ddiolch i chi am bopeth rydych chi wedi'i wneud dros yr wythnosau diwethaf. Gobeithio bod ein Canolfannau Gofal Plant, sydd wedi bod yn darparu gofal plant hanfodol ers i'r ysgolion gau, wedi eich galluogi i fwrw ymlaen â'ch gwaith hollbwysig.

Dengys ymchwil fod **pump o golledion** posibl yn ystod digwyddiadau fel hyn, a thrwy weithio gyda'n gilydd credaf y gallwn fynd i'r afael â'r rhain - mae rhai camau posibl isod:

Colled bosibl	Beth allwch chi ei wneud?
Mae plant a phobl ifanc yn gweld eisiau eu trefn ddyddiol - codi, mynd i'r ysgol, gweld ffrindiau ac ati, gan fod hynny'n eu helpu i wneud synnwyr o fywyd ac yn datblygu arferion gydol oes.	Ceisiwch gael trefn syml gartref - codi yr un amser, bwyta brechwast gyda'ch gilydd, mynd allan i ymarfer corff gyda'ch gilydd, amser i sgwrsio fel teulu ac ati.
Mae plant a phobl ifanc yn gweld eisiau strwythur y diwrnod ysgol - cofrestru, gwersi, amser egwyl, amser cinio ac ati, gan fod hynny'n rhoi trefn i'w diwrnod.	Ceisiwch gael strwythur syml i'ch dysgu gartref . Cofiwch mai nid ail-greu'r ysgol yw'r nod. Fodd bynnag, gallwch chi lunio amserlen syml i wneud y gwaith mae'r ysgol wedi'i osod - Gweithgaredd 1, egwyl, Gweithgaredd 2, ymarfer corff teuluol, Gweithgaredd 3, amser gêm teuluol ac ati.
Mae plant a phobl ifanc yn gweld eisiau eu ffrindiau a'u cyfoedion - mae gwneud ffrindiau a'u cadw yn rhan bwysig o dyfu lan.	Ceisiwch wneud yn siŵr bod eich plentyn yn cael cyfleoedd i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau, siarad â nhw a rhannu'r hyn maent wedi bod yn ei wneud.
Mae plant a phobl ifanc yn gweld eisiau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn yr ysgol ac mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.	Mae llawer o gyfleoedd ar gael gartref - ceisiwch helpu eich plentyn i roi cynnig ar ddi-ddordebau newydd neu i gael mynediad i weithgareddau ar-lein hwyliog e.e. celf, coginio, garddio.
Bydd plant a phobl ifanc yn gweld eisiau eu rhyddid - maent gartref y rhan fwyaf o'r amser a gyda'u rhieni/gofalwyr/teulu drwy'r amser.	Ceisiwch wneud yn siŵr bod gan eich plentyn rywffaint o ryddid i ddewis ei weithgaredd ei hun . Gallai ddewis treulio amser ar ben ei hun, chwarae gêm, darllen ac ati - mae angen rhywfaint o 'amser fi' ar bob un ohonom.

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Direction of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Yn ogystal, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar eich llesiant chi a llesiant eich plentyn ar yr adeg hon - nid ysgol yw eich cartref ac nid oes disgwyl i chi dreulio drwy'r dydd yn dysgu. Rhowch gymaint o gefnogaeth ag sy'n bosibl a gwnewch ddigon o le i'ch plentyn ddysgu - mae gweithio a dysgu gartref yn newydd i ni i gyd a gallwn ond gwneud ein gorau. Serch hynny, mae'n rhaid i chi gofio bod plant yn dysgu drwy'r amser ac mai chi oedd eu hathrawon cyntaf.

Beth ddylwn i ei ddisgwyl gan fy ysgol?

Mae'r cadernid a ddangoswyd gan ysgol eich plentyn dros yr wythnosau diwethaf wedi bod yn rhyfeddol, ac rwy'n siŵr eich bod chi, fel fi, am ddiolch yn diffuant i'r ysgolion am y ffordd maent wedi ymateb. Rydym wedi gofyn i'r holl ysgolion gadw mewn cysylltiad rheolaidd â disgyblion er mwyn sicrhau eu diogelwch a'u llesiant yn ystod y cyfnod hwn. Bydd ysgolion yn dewis cadw cysylltiad mewn amrywiaeth o wahanol ffordd, a bydd y dull cysylltu yn amrywio yn ôl anghenion unigol. Pan fydd yr ysgol yn cysylltu â chi, soniwch am unrhyw bryderon a allai fod gennych, ac rwy'n ffyddiog yr aiff ein staff ati i'ch helpu ac i ddod o hyd i ffordd o fynd i'r afael â'ch pryderon.

Rydym yn gweithio ar ffyrdd arloesol o sicrhau bod plant yn gallu parhau i gael mynediad at ddysgu dros yr wythnosau nesaf. Dyma'r **Cynllun Dysgu o Bell Sir Gâr**. Bydd ysgol eich plentyn yn defnyddio technoleg sy'n bodoli eisoes i osod gwaith a gweithgareddau. Fel arall efallai bydd yr ysgol yn anfon pecynnau gwaith a gweithgareddau atoch. Bydd ysgolion sy'n gallu gosod gwaith ar-lein i ddisgyblion yn diweddarau eu llwyfannau dysgu gyda gweithgareddau ac yn ymateb i waith a gwblhawyd. Mae ambell beth dylid ei gofio:

- Gan na fydd athro yn y cartref, byddwn yn sicrhau nad oes angen lefelau uchel o gymorth na mewnbwn ar gyfer gweithgareddau;
- Bydd staff yr ysgol yn cadw at bolisiau allweddol sy'n ymwneud â defnyddio'r rhyngwyd yn ddiogel ar gyfer disgyblion a staff;
- Bydd ysgolion yn ystyried bod teuluoedd dan bwysau yn yr amgylchiadau presennol a bod angen i blant rannu dyfeisiau weithiau. Gyda hynny mewn golwg, nid yw'n ddoeth ceisio 'ail-greu' diwrnod ysgol arferol ac efallai bydd angen bod yn hyblyg o bryd i'w gilydd o ran yr amseroedd gall eich plant gyrchu offer dysgu ar-lein.


Er nad yw'n glir eto pryd y bydd ysgolion yn ailagor i'n plant a'n pobl ifanc, ni fydd hynny'n digwydd hyd nes y gellir gwneud hynny'n ddiogel. Hefyd bydd y **5 egwyddor a bennwyd** gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, ar 28 Ebrill yn cael eu defnyddio fel sail:

1. Diogelwch a llesiant meddyliol, emosiynol a chorfforol myfyrwyr a staff
2. Parhau i gyfrannu at yr ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i atal lledaeniad COVID-19
3. Ennyn hyder rhieni, staff a myfyrwyr – yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth – fel y gallant gynllunio ymlaen llaw
4. Y gallu i flaenoriaethu dysgwyr ar adegau allweddol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig
5. Cysondeb â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau, rhoi canllawiau ar waith i gefnogi mesurau megis cadw pellter, rheoli presenoldeb a chymau diogelu ehangach.

I gloi, hoffwn ddiolch i chi eto am eich cefnogaeth ac am weithio gyda ni wrth i ni herio'r bygythiad anweledig hwn. I gael diweddariadau pellach a rheolaidd ewch i wefan COVID-19 Cyngor Sir Caerfyrddin -

newyddion.sirgar.llyw.cymru/coronafeirws

Yn gywir,



Canllawiau COVID-19 i rieni a gofawyr i gefnogi teuluoedd i aros yn ddiogel, yn iach ac i ddal ati i ddysgu:
<https://llyw.cymru/canllawiau-covid-19-i-rieni-gofawyr-i-gefnogi-teuluoedd-i-aros-yn-ddiogel-yn-iach-ac-i-ddal-ati-i>

Os oes gennych gwestiynau neu awgrymiadau sut y gallwn eich helpu cysylltwch gyda'ch ysgol neu'r Adran:
dpp@sirgar.gov.uk